

REPORT OF CHIEF EXECUTIVE

SUBJECT: ANNUAL AUDIT SUMMARY 2022

The Auditor General for Wales' Annual Audit summary shows the work completed since the last Annual Audit Summary, which was issued in February 2022. The audit summary forms part of the Auditor General for Wales' duties. The document is attached for Members' information.

Recommendation

Members are asked to NOTE the Annual Audit Summary 2022.

Background Documents
None

(For further information, please contact Richard Griffiths Ext 4815)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022

Dyma grynodeb ein harchwiliad ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae'n dangos y gwaith a wnaed ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein [gwefan](#).



Ynglŷn â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol

Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu



Swyddogaeth yr Awdurdod

Mae dibenion a dyletswydd yr Awdurdod yn sail i'r holl waith a wneir gan yr Awdurdod ac yn fan cychwyn ar gyfer y cynlluniau a'r strategaethau y mae'n eu datblygu. Nodir y rhain yn Neddf yr Amgylchedd 1995 ac maent fel a ganlyn:

Dibenion Statudol – gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol; a hybu cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Dyletswydd Statudol – meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol.

Ffeithiau allweddol

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 aelod sy'n cynrychioli'r canlynol:

- Penodeion Llywodraeth Cymru – 6
- Cyngor Sir Penfro – 12

Ffeithiau allweddol

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan yr Awdurdod £6.5 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn y gellir eu defnyddio o'u cymharu â £6.0 miliwn ar 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn cyfateb i 70% o wariant blynyddol yr Awdurdod ar wasanaethau, sy'n ostyngiad o'r 78% yn 2020–21.

Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2021–22 er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**
Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i sicrhau y cyfrifir yn briodol am arian cyhoeddus.
- **Gwelliant parhaus**
Yn ystod 2021–22, bu'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a oedd yr Awdurdod wedi bodloni ei ofynion adrodd ar berfformiad mewn cysylltiad â 2020–21.
- **Gwerth am arian**
Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon bod hyn wedi ei wneud.
- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**
Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

Archwilio Cyfrifon 2021–22 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod bob blwyddyn.

Ar gyfer 2021–22:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamedd ar wirionedd a thegwch datganiadau ariannol yr Awdurdod ar 29 Gorffennaf 2022, dau ddiwrnod cyn y dyddiad cau statudol.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod yn unol â Chod CIPFA a'r canllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac â'n gwybodaeth am yr Awdurdod.

- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 13 Mehefin 2022 yn dda ar y cyfan.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a ddeilliodd o'n gwaith archwilio, ac fe'u hadroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Gorffennaf 2022.
- mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflwyno'r dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad cyfrifon ar gyfer 2021–22 wedi ei gwblhau.

Prosiectau Lleol – Twristiaeth Gynaliadwy

Yn 2021–22, gwnaethom gwblhau adolygiad yn edrych ar ba mor effeithiol yw dull twristiaeth gynaliadwy yr Awdurdod. Ar y cyfan, canfuom fod yr Awdurdod yn arwain ar dwristiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol, ond mae angen iddo gyfleu ei weledigaeth, blaenoriaethu adnoddau a chynnwys cymunedau a busnesau yn llawn wrth ddatblygu'r agenda hon.

Astudiaethau Llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob awdurdod, rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol bob blwyddyn i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf.

Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru (Gorffennaf 2022)

Yn 2021–22, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dri adroddiad ar sut mae pob un o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn ymateb i'r her o reoli a helpu i ddarparu twristiaeth gynaliadwy. Nododd pob un o'r adolygiadau hyn rai anawsterau sy'n wynebu Awdurdodau Parc Cenedlaethol a'u partneriaid wrth iddynt arfer eu cyfrifoldebau. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu'r canfyddiadau ynghyd mewn datganiad o'r sefyllfa genedlaethol. Gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canfyddiadau hyn wrth ddatblygu a phennu ei blaenoriaethau ar gyfer Awdurdodau Parc Cenedlaethol, er mwyn helpu i bolisi cenedlaethol gael ei weithredu'n effeithiol.

Taliadau Uniongyrchol (Ebrill 2022)

Mae Taliadau Uniongyrchol yn ddewis arall yn lle gofal neu gymorth a drefnir gan yr awdurdod lleol, a gall helpu i ddiwallu angen unigolyn neu ofalwr. Eu nod yw rhoi mwy o ddewis, mwy o hyblygrwydd a mwy o reolaeth i bobl dros y gefnogaeth y maent yn ei chael. Ystyriodd ein hadroddiad sut mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu i gynnal llesiant pobl ac a ydynt yn gwella ansawdd bywyd. Gwnaethom edrych hefyd ar sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn annog pobl i dderbyn Taliadau Uniongyrchol ac a yw'r gwasanaethau hyn yn cyflwyno gwerth am arian. Canfuom fod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac roedd y bobl a arolygwyd gennym yn cydnabod eu bod yn eu helpu i aros yn annibynnol. Ond canfuom hefyd fod rheoli a chefnogi pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n fawr, gan arwain at safonau gwasanaeth gwahanol i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Amser am newid — Tlodi yng Nghymru (Tachwedd 2022)

Nid yw tlodi yng Nghymru yn ffenomen newydd ac mae trechu tlodi, yn enwedig tlodi plant, wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a chynghorau yng Nghymru. Mae'r argyfwng costau byw presennol yn golygu bod effaith ar fwy o bobl, a bod teuluoedd a fu'n byw yn gyfforddus yn symud i dlodi am y tro cyntaf. Mae llawer o'r dulliau y gellid eu defnyddio i liniaru tlodi y tu hwnt i reolaeth Cymru. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant yn 2011, ond mae wedi dyddio ac mae'r targed o ddileu tlodi plant erbyn 2020 wedi ei adael. Mae cynghorau a phartneriaid yn blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond mae'r cymysgedd o ddulliau a thirlun partneriaethau cymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, pwyslais, gweithredoedd, a blaenoriaethau yn amrywio'n fawr. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid refereniw sylweddol ar gael ond, oherwydd cymhlethdod a natur y materion, mae lefel gyfan y gwariant yn anhysbys, ac nid yw unrhyw gyngor yn gwybod graddau ei wariant ar liniaru a threchu tlodi. Mae natur tymor byr rhaglenni grant, gweinyddiaeth orgymhleth, gwendidau mewn canllawiau a chyfyngiadau ar grantiau, a thrafferthion gwario arian yn golygu nad yw'r cyllid yn cael yr effaith y gallai ei chael. Mae cynghorau'n ei chael hi'n anodd cyflawni gwaith ataliol oherwydd graddau'r galw gan bobl sydd mewn argyfwng.

'Cyfle wedi'i golli' — Mentrau Cymdeithasol (Rhagfyr 2022)

Mae Mentrau Cymdeithasol yn eistedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Maent yn defnyddio strategaethau masnachol er mwyn sicrhau'r gwelliannau mwyaf posibl o ran llesiant ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, ar gyfer grwpiau unigol mewn cymdeithas, cymunedau diffiniedig neu ardaloedd daearyddol yn aml. Mae mentrau cymdeithasol yn gweithio ym mhob sector o economi Cymru ac ym mhob rhan o'r wlad, ac maent yn fwyfwy amlwg yn neddfwriaeth Senedd Cymru. Er bod awdurdodau lleol yn honni eu bod yn gwerthfawrogi Mentrau Cymdeithasol, ychydig iawn sydd wedi mapio eu gweithgarwch ac nid yw'r mwyafrif o'r awdurdodau yn gwybod graddau'r ddarpariaeth sydd yn eu hardal. Mae llai na thraean o'r awdurdodau lleol yn ystyried bod ganddynt berthynas ragweithiol a chefnogol â Mentrau Cymdeithasol ac nid oes gan yr un ohonynt strategaeth neu bolisi penodol sy'n siartio sut y maent yn bwriadu hybu a datblygu'r sector. O ganlyniad i hynny, mae awdurdodau lleol yn colli'r posibilrwydd y gallai Mentrau Cymdeithasol helpu i ddarparu gwasanaethau a all wella ansawdd bywyd pobl. Yn aml, mae'r trefniadau caffael a chomisiynu presennol yn methu'n anfwriadol ag annog Mentrau Cymdeithasol i ymgysylltu oherwydd eu bod yn rhy fiwrocraidd. Nid yw gwerth cymdeithasol – y gwerth ychwanegol y gall prosesau comisiynu ei gyflawni – yn ymddangos fel sbardun allweddol i lawer o awdurdodau lleol. Nid yw'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, nac yn hybu Mentrau Cymdeithasol yn effeithiol.

'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau (Ionawr 2023)

Ar adeg pan fo'n debygol y bydd gostyngiadau ychwanegol mewn gwariant cyhoeddus, mae awdurdodau lleol yn dangos diddordeb cynyddol mewn annog a datblygu cydnerthedd cymunedol; galluogi pobl i wneud mwy drostynt eu hunain a bod yn llai dibynnol ar y wladwriaeth. Er bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yn blaenoriaethu cydnerthedd cymunedol, mae'r gwaith wedi ei ddiffinio'n wael yn rhy aml ac mae pwyslais y camau sy'n tanategu'r cynlluniau yn gyfyng. O ystyried yr heriau cymdeithasol, ariannol a demograffig sy'n wynebu

Cymru, mae angen gwella a chyflymu gweithgarwch. Mae capasiti, adnoddau a sgiliau yn brin; mae pobl yn wynebu dewisiadau caletach ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r argyfwng costau byw. Mae gan gymunedau ac awdurdodau lleol eu hunain alluoedd gwahanol hefyd ac maent yn dechrau o wahanol leoedd gyda'u heriau unigryw eu hunain i'w goresgyn. Rydym yn tynnu sylw at arferion cadarnhaol ac enghreifftiau o'r ffordd y mae eraill yn ceisio mynd i'r afael â'r her o alluogi pobl i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau'r awdurdodau lleol a sut y maent yn cefnogi ac yn galluogi'r trawsnewid hwn.

Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2022–23

Buom hefyd yn edrych ar y cyfleoedd a'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Gallai'r rhain effeithio ar allu'r Awdurdod i fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn cysylltiad â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Mae ein gwaith lleol a gynlluniwyd ar gyfer 2022–23 yn cynnwys:

- **Amrywio incwm**

Rydym hefyd yn cynnal adolygiad cenedlaethol yn 2023 sy'n edrych ar effeithiolrwydd llywodraethiant Awdurdodau Parc Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe'i penodwyd gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Y Senedd sy'n dwyn Swyddfa Archwilio Cymru i gyfrif.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfedd â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gallai gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi, a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.